# Hyfforddiant Cydsyniad Corfodol

Pasiwyd gan:  Y Senedd

Pasiwyd ar: 25/03/2019

Yn darfod ar:  **25/03/2022**

Swyddog sy'n gyfrifol: Swyddog Llesiant

## Crynodeb

Dylid darparu hyfforddiant cydsyniad gorfodol i fyfyrwyr Aberystwyth.

## Manylion

Mae llawer o fyfyrwyr prifysgol yn wynebu sefyllfaoedd sy'n gymhleth. Ymhlith y rhai sy'n peri'r problemau mwyaf mae'r rheiny sy'n digwydd pan fo sefyllfaoedd yn troi'n rhywiol. Mae'n syndod i mi nad oes gennym ni eisoes hyfforddiant cydsyniad gorfodol i fyfyrwyr. Byddai addysgu myfyrwyr ynghylch beth yw cydsyniad a sut i'w gael / rhoi yn helpu i egluro llawer o sefyllfaoedd i fyfyrwyr. Byddai'n helpu myfyrwyr i fod yn fwy cyfforddus ac mae rhaglenni ar-lein eisoes wedi'u hanelu at fyfyrwyr.

Gwnaed gwelliant i'r syniad hwn cyn ei basio fel bod yr Undeb yn lobïo'r Brifysgol i ariannu unrhyw hyfforddiant a gynhelir.

Submitted By: Bethan Phillips

## Rhestr Weithredu

| Camau a gymerwyd | Enw a Rôl | Dyddiad |
|---|---|---|
| Ar hyn o bryd mae'r Swyddog Llesiant yn gweithio ochr yn ochr â'n Cynghorydd Myfyrwyr, sydd â hanes o ddatblygu a darparu hyfforddiant Cydsyniad mewn rôl flaenorol, gyda'r bwriad o gwrdd â'r adran Cymorth i Fyfyrwyr a'r Gwasanaeth Llety ynghylch sut y gallent gyflwyno hyfforddiant cydsyniad i fyfyrwyr sy'n byw yn Llety'r Brifysgol.<br><br>Er bod cyfarfodydd oedd ar y gweill wedi cael eu cwtogi'n ddiweddar a'u gohirio fel rhan o ymateb i COVID-19, mae Undeb y Myfyrwyr wedi dechrau rhannu hyfforddiant ar-lein wedi'i ddarparu gan yr elusen Brook. | | |